JONES, THOMAS (neu 'Twm Shon Catti'; 1532 - 1609), tirfeddiannwr, hynafiaethydd, achydd, a bardd

Enw: Thomas Jones
Ffugenw: Twm Shon Catti
Dyddiad geni: 1532
Dyddiad marw: 1609
Priod: Joan Devereux (née Price)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tirfeddiannwr, hynafiaethydd, achydd, a bardd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Perchnogaeth Tir; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Francis Jones

O Borth-y-ffynnon ger Tregaron, mab anghyfreithlon bonheddwr o Geredigion. Yn ôl Dyddiadur John Dee ganwyd ef 1 Awst 1532 (J. Roberts ac Andrew G. Watson, *John Dee's Library Catalogue* (1990), 45-46). Ymwelodd Thomas Jones â Dee yn Llundain yn 1590 a Manceinion yn 1596, a buont yn gohebu yn 1597 : galwai Dee ef 'my cousin'.

Disgrifiwyd ef fel 'Thomas Johns alias Catty' yn 1559. Ni wyddys enw ei wraig gyntaf, ond priododd, yn ail wraig, yn 1607, Joan, gweddw Thomas Williams o Ystrad Ffin, a merch Syr John Price, Aberhonddu. Dechreuodd ysgrifennu tua 1570. Cynorthwyodd George Owen a Lewys Dwnn, a hefyd swyddogion y Coleg Arfau. Bu yn ddistain dros Garon yn 1601. Bu farw yn 1609, a phrofwyd ei ewyllys yng Nghaerfyrddin.

Tyfodd cnwd o storïau rhamantus o gylch ei enw, ond dengys ei lawysgrifau ei fod yn r o ddysg a dawn; tra y dengys cofnodion swyddogol ei fod yn r bonheddig ei sefyllfa mewn cymdeithas.

Awdur

Major Francis Jones

Ffynonellau

Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club, 1939

Calendar of State Papers, Domestic Series, 1611-8, 130

Notes and Queries, 1st ser., ii, 12

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1949

llawysgrifau yn Ll.G.C., yr Amgueddfa Brydeinig, a Llyfrgell Rydd Caerdydd

J. O. Halliwell, *The private Diary of Dr John Dee, and the catalogue of his library of manuscripts, from the original manuscripts in the Ashmolean Museum at Oxford and Trinity College Library, Cambridge* (Llundain 1842)

Dafydd H. Evans yn D. P. Davies (gol.), *Coleg Dewi a'r Fro* (Llanbedr Pont Steffan 1984), 8-22

Yr Aradr, 7 (1996) 174-89

Darllen Pellach

Archifau LlGC: Ewyllys Thomas Johnes, 1609

T. J. Llewelyn Prichard, *The adventures and vagaries of Twm Shon Catti, descriptive of life in Wales* (Aberystwyth 1828)

T. J. Llewelyn Prichard, Edward Salter, *The adventures and vagaries of Twm Shon Catti: alias Thomas Jones, Esq. of Tregaron, a wild wag of Wales* (Llanidloes 1873)

T. J. Llewelyn Prichard, *Difyr-gampau a gorchestion yr enwog Twm-Shôn-Catti, gwron Cymreig* (Bala 188-?)

R. J. Roberts, 'John Dee and the Matter of Britain', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1991, t.137

Coflein: Twm Sion Cati's Cave

Erthygl Wicipedia: Twm Siôn Cati

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3402227

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu